# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 24AIN MAWRTH, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Gwen Roberts**

**GwenAlawRoberts@gwynedd.llyw.cymru**

**AELODAETH:**

**Cyngor Gwynedd:**

Wendy Cleaver
Eryl Jones-Williams
Louise Hughes

**Aelodau Cyfetholedig:**

| | |
|---|---|
| Coun Robert Williams | Cyngor Tref Abermaw |
| Dr John Smith | Meirionnydd Yacht Club |
| Glenn Radford | Royal National Lifeboat Insitution |
| Ashley Field | Three Peaks Yacht Race |
| Robert Aeron Williams | Barmouth Resort Improvement Group |

**Sylwedyddion:**

Cynghorydd Matthew Harris
Ian Sadler
Cynghorydd Brian Woolley
Peter Appleton
Desmond George
June Jones
John Brynmor Hughes

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION** 4 - 9

I gadarnhau cofnodion Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025.

**4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 10 - 19

I ystyried adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

**6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar 24 Tachwedd 2026.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW, 21 HYDREF 2025

**Presenoldeb:**

**Aelodau:**
Cynghorydd Wendy Cleaver (Cadeirydd), Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Is-Gadeirydd), Cynghorydd Deana Davies-Fisher (Cyngor Tref Abermaw)

**Swyddogion:**
Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Daniel A Cartwright (Uwch Swyddog Harbyrau), Kane Arran Triggs (Harbwrfeistr Abermaw), Lowri Evans a Gwen Roberts (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth) a Glesni Foulkes (Cyfieithydd).

**Hefyd yn Bresennol:** Cynghorydd June Jones (Sylwedydd, Cynrychiolydd Pwyllgor Harbwr Porthmadog), Cynghorydd R Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned), Cynghorydd John Brynmor Hughes (Sylwedydd, Cynrychiolydd Pwyllgor Harbwr Pwllheli).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD**

Ethol y Cynghorydd Wendy Cleaver fel Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar gyfer 2025/26.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD**

Ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams fel Is-gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar gyfer 2025/26.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Robert Williams (Cyngor Tref Abermaw ), Ashley Field (Ras Hwylio'r Tri Chopa), Robert Aeron Williams (Grŵp Gwella Cyrchfannau Abermaw).

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau a Harbwrfeistr Abermaw.

Data Perfformiad

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau.
Mynegwyd balchder bod nifer y cytundebau angori yn yr harbwr wedi cynyddu yn ystod y tymor. Yn ogystal, gwelwyd cynnydd o 10% yn nifer y cychod pŵer a gofrestrwyd y tymor hwn o'i gymharu ag y llynedd.
Soniwyd am y system gofrestru ar lein sy'n cael ei defnyddio er mwyn ceisio arbed papur.

Adborth a gafwyd am Harbwr Abermaw

Eglurwyd bod codau QR i'w gweld o gwmpas yr harbwr er mwyn i gwsmeriaid allu rhoi adborth ar yr harbwr. Datgelwyd bod cynnydd yn yr adborth cadarnhaol sydd wedi ei dderbyn o gyfnod 2023/24 hyd at eleni.
Tywyswyd y pwyllgor drwy'r adborth cadarnhaol a dderbyniwyd, gan dynnu sylw at y ffaith mai tîm o staff ifanc sy'n gweithio yn yr harbwr. Nodwyd eu bod yn darparu gwasanaeth o'r safon uchaf, fel sydd i'w weld o'r adborth.
Ategwyd bod yr angorfeydd newydd i ymwelwyr wedi gweithio'n wych gan ei gwneud yn haws ac yn fwy diogel i ymwelwyr ddod i'r harbwr.

Symudwyd ymlaen i drafod yr adborth negyddol a dderbyniwyd, gan nodi bod pob adborth yn cael ei gydnabod a bod ymdrechion parhaol i wella'r harbwr yn cael eu gwneud.

Cod Diogelwch Morol a Chyfleusterau Porthladd (PMSC)

Nodwyd bod y Cod Diogelwch hwn yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd ar ddiogelwch morol porthladdoedd. Eglurwyd bod archwiliadau gan arbenigwr allanol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau fod yr harbwr yn cyd-fynd â gofynion y Cod. Ychwanegwyd bod archwiliwr newydd wedi ei benodi.

Adnabuwyd bod sicrhau hyfforddiant cyson i staff yn rhan allweddol o'r Cod.
Llongyfarchwyd Harbwrfeistr Abermaw a lwyddodd i gwblhau'r Diploma Harbwrfeistr eleni.
Soniwyd am y mesurau diogelwch a gaiff eu cymryd, gan bwysleisio defnydd staff o gamerâu cyrff. Nodwyd bod cyflwyno'r camerâu hyn eleni wedi lleihau'r nifer o achosion o ymddygiad ymosodol tuag at staff, ac yn cynnig sicrwydd pe bai digwyddiad yn cymryd lle.
Holwyd os oes digwyddiad lle bu rhaid edrych yn ôl ar gynnwys y recordiadau er mwyn ymateb ymhellach. Cadarnhawyd bod Heddlu Gogledd Cymru wedi gofyn am gynnwys y camerâu a chamerâu cylch cyfyng yr harbwr er mwyn ymateb i ddigwyddiadau.
Mynegwyd balchder nad oes unrhyw ddigwyddiad neu ddamwain wedi'u hadrodd i'r Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Morol hyd yma eleni. Nodwyd bod digwyddiadau

wedi cymryd lle, megis cwch yn mynd ar dân a chwch arall yn suddo, ond nad oedd y rhain yn ddigon difrifol i'w hadrodd.

Tŷ'r Drindod AGC (Awdurdod Goleudai Cyffredinol)

Nodwyd bod y Cyngor yn Awdurdod Goleudy Lleol cofrestredig, a'u bod yn gyfrifol am sicrhau bod y cymhorthion mordwyo wedi eu lleoli'n gywir ac yn gweithio'n ddiogel ar hyd yr arfordir. Eglurwyd bod staff yn asesu'r rhain yn rheolaidd er mwyn sicrhau diogelwch cwsmeriaid. Ategwyd bod y wybodaeth o'r arolygon sy'n cael eu cynnal yn cael ei fewnbynnu i gronfa ddata Tŷ'r Drindod. Cadarnhawyd bod yr archwiliad diwethaf gan Dŷ'r Drindod yn nodi bod 95.47% o Gymhorthion Mordwyo'r harbwr mewn cyflwr da.

Adnoddau a Chyllideb

Amcangyfrifwyd bod gorwariant o oddeutu £4,000 yn y maes staff a gaiff ei achosi gan salwch ac oriau ychwanegol a weithiwyd gan staff.
Wrth gyfeirio at y gyllideb, nodwyd bod yr harbwr yn amcangyfrif tanwariant o'r gyllideb sydd wedi'i dosrannu i adeiladau'r harbwr eleni, gan nad oes wedi bod angen gwaith cynnal a chadw.
Cadarnhawyd bod angen ail edrych ar y ffigwr sydd wedi ei nodi fel gwariant ar gyfer trafnidiaeth, gan ategu nad yw'r gwir ffigwr mor uchel â'r hyn sydd wedi ei nodi.
Datganwyd bod gorwariant disgwyliedig ar adnoddau a gwasanaethau yn ogystal.
Pwysleisiwyd mai ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yw'r tabl yn yr adroddiad, felly bod siawns y gallent newid. Ychwanegwyd y gall yr amcangyfrifon hyn ynglŷn â gwariant yr harbwr newid yn ddibynnol ar y tywydd wrth fynd ymlaen a'r difrod a gaiff ei achosi.
Gobeithiwyd y gall yr harbwr ddenu incwm o tua £55,000, sy'n uwch na'r hyn a nodwyd yn y tabl.

Cadarnhawyd bod anawsterau wedi codi wrth geisio recriwtio staff ar gyfer y traethau eleni, er bod y swyddi hyn wedi eu hysbysebu amryw o weithiau yn ystod y flwyddyn.

Materion Allweddol Eraill

Nodwyd bod y gwasanaeth wedi buddsoddi £3500 i brynu bowser a phibell olchi jet ar drelar. Eglurwyd bod yr offer hwn yn galluogi staff i lanhau ardaloedd o fewn yr harbwr nad oedd modd eu cyrraedd gynt. Ategwyd bod yr offer hwn wedi ei ddefnyddio yn harbwr Aberdyfi yn ogystal.

Tynnwyd sylw at y ffaith i Gymhorthydd Mordwyo rhif 2 gael ei olchi i'r lan ar ôl difrod i'w gadwyn godi. Sicrhawyd bod staff wedi gweithredu'n gyflym, a'i fod bellach yn ôl yn y man priodol. Ychwanegwyd bod ychydig o newid i'w safle ond gobeithiwyd y bydd hyn yn well ar gyfer y banciau tywod sydd yn y sianel.

Diweddariad ar Faterion Gweithredol

Soniwyd bod y tywydd braf a gafwyd dros yr haf wedi denu nifer fawr o ymwelwyr a chychod o bob math i'r harbwr. Croesawyd hyn ond pwysleisiwyd yr angen i gwsmeriaid ddefnyddio offer diogelwch megis siacedi achub a chario ffôn neu VHF.

Ymfalchïwyd yn y ffaith bod Harbwr Abermaw wedi gweld cynnydd o tua 55% yn nifer y cychod sydd wedi ymweld â'r harbwr ers llynedd.
Datganwyd bod cwch patrôl yr harbwr wedi cael defnydd da dros y tymor, a chaiff ei ddefnyddio er mwyn helpu cychod i'w hangorfeydd, patrolio'r arfordir ac archwilio'r sianel fordwyo.
Nodwyd bod cerbyd y gwasanaeth hefyd yn cael llawer o ddefnydd ar y traeth, ond bod ei gyflwr yn dirywio erbyn hyn o ganlyniad i'r amgylcheddau heriol y mae'n gweithio ynddynt. Ymhelaethwyd ar hyn gan nodi fod yr harbwr mewn trafodaethau gydag adran fflyd y Cyngor er mwyn ceisio cael cerbyd newydd.
Adroddwyd bod y Cerbyd Pob Tir wedi cael ei uwchraddio, sydd wedi arwain ato yn cael mwy o ddefnydd.

Crybwyllwyd bod gan yr harbwr ddrôn newydd, a gaiff ei ddefnyddio i wirio'r sianel fordwyo, i asesu'r afon o'r swyddfa, yn ogystal â chwilio am bobl goll ar y traeth.
Amlygwyd bod y buddsoddiadau sydd wedi cael eu gwneud mewn offer dros y flwyddyn wedi bod yn gadarnhaol, a chaiff yr offer hwn ddefnydd aml ar draws yr arfordir.

Materion Mordwyo

Cadarnhawyd bod rhai o'r bwiau angen archwiliad, ac amlygwyd bod hysbysiad i forwyr wedi cael ei gyhoeddi er mwyn roi gwybod nad yw bwi rhif 10 yn ei safle.

Datgelwyd bod effaith tywod dal i'w weld ar y sianel, ac mae hyn yn effeithio mynediad rhai cwsmeriaid at wal yr harbwr. Nodwyd bod nifer o gwynion wedi eu derbyn am y mater hwn.

Esboniwyd bod gofyn i gwsmeriaid roi gwybod i'r swyddfa pa fyddant yn gadael neu'n dychwelyd i'r harbwr, er mwyn gallu eu hysbysu am unrhyw fater mordwyo neu dywydd er enghraifft.

Materion Penodol

Tynnwyd sylw at y ffaith bod gwaith yn mynd rhagddo i adnewyddu pontŵn yr harbwr, a gobeithiwyd y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2026. Nodwyd nad yw hyn wedi ei gadarnhau eto, ond ategwyd nad yw'r harbwr wedi colli cwsmeriaid yn sgil y diffyg pontŵn.

Cynnal a Chadw

Eglurwyd y caiff archwiliadau dyddiol, wythnosol a misol eu cynnal gan staff yr harbwr. Soniwyd bod rhestr waith yn cael ei gwneud ar gyfer y gaeaf, er mwyn mynd i'r afael ac unrhyw waith sydd angen ei wneud.

Tywyswyd y pwyllgor drwy restr digwyddiadau Harbwr Abermaw.

Sylwadau'n deillio o'r drafodaeth

Pryderwyd am yr effaith ariannol mae’r tywydd garw yn ei gael ar gyllidebau’r harbyrau wrth orfod adfer unrhyw ddifrod. Pwysleisiwyd bod achlysuron lle caiff pecynnau eu darparu gan Lywodraeth Cymru i dalu am ddifrod sylweddol. Ychwanegwyd nad oes disgwyl i gyllidebau’r harbwr ymestyn i hyn fel arfer, oherwydd bod yr adran a’r gwasanaeth o fewn y Cyngor yn delio â difrod i’r harbyrau.

Soniwyd bod y grwynau, sydd wedi eu gosod yn benodol gan beirianwyr, wedi torri a holwyd beth sy’n cael ei wneud i ddatrys hyn. Datgelwyd bod y grwynau hyn yn dod o dan gyfrifoldeb Ymgynghoriaeth Gwynedd ac y bydd y pryderon yn cael eu pasio ymlaen i’r adran.

Eglurwyd ymhellach am waith gwych y drôns yn yr harbwr - ategwyd eu bod yn ddefnyddiol iawn i allu asesu llygredd ac archwilio bwiau mewn modd mwy diogel na gyrru cwch allan.

Cyfeiriwyd at y ddwy gadair hygyrch sy’n cael defnydd gwych ar y traeth – nodwyd pwysigrwydd y ddarpariaeth hon a bod gobaith i ehangu ar hyn yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

Nodi a derbyn yr adroddiadau.

## 6. CAIS I WERTHU CYNNYRCH O GEI HARBWR ABERMAW

Cyflwynwyd gan y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol.

Soniwyd am gais gan bysgotwr lleol sydd wedi dod i law i werthu bwyd môr o gei’r harbwr. Ymhelaethwyd ar hyn gan ddatgan mai bwyd môr lleol a fydd yn cael ei werthu yno. Ategwyd ei fod yn ofod Cymraeg a fydd yn galluogi cwsmeriaid i ddysgu am arferion pysgota cynaliadwy. Cadarnhawyd na fydd hyn yn effeithio gweithgareddau eraill yr harbwr. Nodwyd cefnogaeth gan yr aelodau i’r cais hwn. Pwysleisiwyd mai pwrpas yr eitem oedd gweld barn yr aelodau am y cais, ac nad oes penderfyniad yn cael ei wneud am ei dderbyn yn y cyfarfod hwn.

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf i’w gynnal ar y 24ain o Fawrth, 2026.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00yh a daeth i ben am 3:30yh

________________________________________
(Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| **Dyddiad:** | 24 Mawrth 2026 |
| **Awdur:** | Uwch Swyddog Harbwr |
| **Gwasanaeth:** | Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned |
| **Teitl:** | Diweddariad ar Faterion Rheoli Gwasanaeth |

1 **CEFNDIR**

1.1 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelwch a datblygu'r harbwr, yn ogystal â derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion rheoli sy'n gysylltiedig â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

2. **ADRODD AR FATERION RHEOLI GWASANAETH**

Cyflwynir y crynodeb isod mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaeth.

**i) <u>Data Perfformiad</u>**

2.1 Caiff y data isod ei gasglu fel rhan o drefniadau monitro a rheoli perfformiad y Gwasanaeth Morwrol.

| Mesur | 2023/4 | 2024/5 | 2025/6 |
|---|---|---|---|
| Cytundebau Angori | | | |
| Porthmadog | 106 | 109 | 106 |
| Abermaw | 71 | 78 | 81 |
| Aberdyfi | 73 | 79 | 83 |

2.2 Mae'r ffigurau a ddarparwyd yn parhau i fod yn gyson gyda'r rhai a rannwyd yng nghyfarfod mis Hydref, fodd bynnag, yn ystod cyfnod y gaeaf, mae swyddfa'r Harbwr wedi derbyn sawl ymholiad ynglŷn ag angorfeydd cwsmeriaid newydd yn Harbwr Abermaw. Mae hyn yn arwydd calonogol bod y niferoedd yn debygol o godi eto o gymharu â thymhorau blaenorol. Hoffai'r gwasanaeth ddiolch yn ddiffuant i staff yr harbwr am eu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid a'u proffesiynoldeb yn eu gwaith. Mae eu dealltwriaeth ac ymrwymiad yn allweddol wrth gynhyrchu'r adborth cadarnhaol iawn yr ydym yn parhau i'w dderbyn gan forwyr lleol a chychod sy'n ymweld.

Hefyd, hoffai'r Gwasanaeth Morwrol atgoffa pawb y bydd y gwasanaeth ar-lein ar gyfer ceisiadau angori a chofrestru cychod pŵer yn ail-agor ar 1 Ebrill. Mae'r ffioedd

cofrestru wedi'u newid yn unol â chwyddiant blynyddol, gweler isod y ffioedd a'r costau diweddaraf.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn casglu data ar foddhad cwsmeriaid a defnyddwyr yr Harbwr:

| | 2023/4 | 2024/5 | 2025/6 |
|---|---|---|---|
| **Boddhad Cwsmer** | | | |
| Rhagorol | 40% | 60% | 68% |
| Da Iawn | 30% | 24% | 24% |
| Boddhaol | 20% | 16% | 4% |
| Gwael | 10% | 0% | 2% |
| Gwael Iawn | 0% | 0% | 0% |
| Anhysbys | 0% | 0% | 2% |

Mae'r ffigyrau a nodwyd yn gymharol â'r rhai yr adroddwyd arnynt yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Hydref. Oherwydd y nifer isel o bobl dros gyfnod y gaeaf, rydym yn rhagweld dirywiad yn nifer yr ymatebion adborth sy'n cael eu cyflwyno drwy'r holiadur ar y cod QR. Serch hynny, mae'r adborth a dderbyniwyd mewn gohebiaeth dros e-bost a thrafodaethau wyneb yn wyneb wedi bod yn gadarnhaol iawn ac wedi'u croesawu.

Ceir enghraifft isod o adborth a dderbyniwyd gan gwsmeriaid:

*"Diolch am eich holl help yn ystod y tymor. Mae wedi bod yn wych dod i'ch adnabod chi a byddaf yn eich colli i gyd".*

*"Ar y dechrau, rydyn ni (defnyddwyr yr harbwr), yn amharod i siarad gyda staff newydd, ond mae Lois yn wych, mae hi'n glod i'r Harbwr. Mae ei gwybodaeth fecanyddol yn ardderchog, ac mae hi bob amser yn hapus i neidio ar fwrdd y cwch i weld a all ddatrys unrhyw broblemau".*

*"Pryd fydd y pontŵn yn ôl?"*

*"Beth ydyn ni'n mynd i'w wneud am yr harbwr yn siltio. A oes modd cael cloddiwr yno, mae'n rhaid bod y fferis yn colli arian?"*

Rydym yn annog sylwadau cadarnhaol ac adeiladol ar reolaeth yr Harbwr, gan eu bod yn ein helpu i wella'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

**ii) <u>Diogelwch yr Harbwr</u>**

2.3 Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn nodi'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd.

Yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Hydref, cafodd yr aelodau eu cynghori, yn dilyn penodi Mr Owen Morgan yn Berson Dynodedig newydd ar gyfer Cyngor Gwynedd, y

byddai ef yn cynnal archwiliadau o'r harbyrau dan awdurdod yr adran Forwrol, sef harbyrau Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Hafan Pwllheli.

Yn 2025, rhoddodd addasiadau i'r PMSC arweiniad fwy clir ac fe wnaeth hyn gryfhau'r gofynion ar gyfer rhanddeiliaid a sefydliadau yn gweithredu o fewn cyfyngiadau'r harbwr. Dyluniwyd y newidiadau hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau a systemau rheoli diogelwch morwrol sy'n gorgyffwrdd yn cyd-fynd â'i gilydd yn effeithiol. O ganlyniad, cyhoeddwyd ymarfer cydymffurfio cenedlaethol i'r holl harbyrau i gadarnhau eu bod yn cadw at godau unigol ac i sicrhau bod mesurau priodol yn eu lle i ymdrin ag unrhyw addasiadau angenrheidiol.

Mae'r adran yn falch o gyhoeddi bod Mr Morgan wedi cwblhau'r archwiliad ym mis Chwefror. Yn dilyn adroddiad cadarnhaol, mae'r Gwasanaeth bellach mewn sefyllfa i gyflwyno ei Datganiad Cydymffurfio cyn diwedd mis Mawrth a chyhoeddi ei dogfennaeth PMSC ar wefan Cyngor Gwynedd.

**Stormydd y Gaeaf**

Yn ystod cyfnod y gaeaf 2025/6, profodd yr ardal fwy o weithgarwch stormydd, yn bennaf o gyfeiriad y De-ddwyrain. Yn ystod y cyfnod hwn, effeithiwyd ar gwch oedd wedi'i hangori wrth ochr wal yr harbwr gan yr amodau difrifol. Defnyddiwyd bwmau gollyngiadau olew, a gwagwyd y cwch gan ei arnofio eto ar y llanw canlynol. Ni adroddwyd am unrhyw ddifrod amgylcheddol, er bod y cwch yn cael ei monitro yn dilyn y digwyddiad. Yn ogystal, ddechrau mis Hydref, aeth cwch arall yn rhydd o'i hangorfa yn ystod storm, ac fe'i lleolwyd yn ddiweddarach yn Harbwr Aberamffra ar ôl mynd o dan bont y draphont. Cododd pryderon y gallai'r cwch fod wedi dod i gysylltiad â'r bont, wrth ddarganfod fod y mast wedi torri. Hysbyswyd Trafnidiaeth Cymru am y sefyllfa, ond ni adroddwyd am unrhyw ddifrod gweladwy i'r bont. Fe wnaeth perchnogion y cwch ei adfer yn brydlon, ac nid oedd unrhyw bryderon amgylcheddol.

Hoffai'r gwasanaeth ddiolch i'r holl staff a fynychodd y digwyddiadau hyn y tu allan i oriau gwaith arferol, gan sicrhau bod gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn wrth reoli sefyllfaoedd o'r fath.

Ar hyn o bryd, mae sawl Hysbysiad i Forwyr mewn grym. Yn unol â'n dyletswyddau statudol, rydym yn cynghori morwyr i lywio'n ofalus o fewn y sianel ac wrth agosáu at yr harbwr. Ar hyn o bryd, mae'r bwi allanol (Fairway buoy) "Oddi ar ei Safle", ond mae yn parhau i fod yn safle siartredig, ac mae swyddfa'r harbwr yn cynghori pob cwch i ddefnyddio'r lleoliad hwn fel pwynt cyfeirio wrth agosáu at yr harbwr. Bydd yr holl Gymhorthion Mordwyo sydd "Oddi ar eu Safle" ar hyn o bryd yn cael eu hail-leoli cyn gynted â phosib, yn amodol ar y tywydd a môr diogel. Ar ôl ei ail-leoli, bydd Hysbysiad i Forwyr wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyhoeddi, a'r wybodaeth yn cael ei chofnodi ar gronfa ddata LARs Cymhorthion Mordwyo Lleol Trinity House. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu yn adroddiad yr Harbwrfeistr.

iii) **Adnoddau a Chyllideb**

Tabl diweddaraf ar gyfer Ffioedd 2026/27

Mae crynodeb o'r cyllidebau ar gyfer harbwr Abermaw wedi'i gynnwys isod.

| **Cynnwys T.A.W** | **2025/26** | **2026/27** | **Prices Including V.A.T** |
|---|---|---|---|
| Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr - Pob Cwch gan gynwys Ysgraff | 48.86 | **50.81** | Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues - All Craft including Ferries |
| Tollau Harbwr y fedr - pob cwch | 8.55 | **8.89** | Harbour Dues per meter - all vessels |
| Trwydded Angorfeydd Trwyn y Gwaith | 43.19 | **44.92** | Penrhyn Point Mooring License |
| Ffi Trwydded Angorfa Stad Y Goron-pob angorfa (Eithrwyd TAW-dim yn daladwy hyd yma) | 36.83 | **38.30** | Crown Estate Mooring License-all moorings (VAT exempt-not currently charged) |
| **Cwch ymwelwyr - Dyddiol neu rhan o ddiwrnod** | | | **Visiting Vessels - Daily or part of day** |
| Cwch Ymweld-Daliwr Angorfa Harbyrau Gwynedd | 15.00 | **16.00** | Visiting Vessels-Gwynedd Harbour Mooring Holders |
| Cwch Ymweld-Pob Cwch Pleser arall | 20.00 | **22.00** | Visiting Vessels-All other pleasure vessels |
| Cychod cario teithwyr **y fedr** + Tollau Harbwr | 42.77 | **44.48** | Passenger carrying vessels **per metre** + Harbour Dues per meter |
| | | | |
| Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr y fedr | 42.77 | **44.48** | Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter |
| Cychod yn ymweld a'r harbwr y dydd neu rhan o'r dydd | 91.77 | **95.44** | Commercial vessels visiting per day or part of day |
| | | | |
| Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) - Pysgotwyr llawn amser | 498.72 | **518.67** | Harbour compound (per annum) - Full time fishermen |
| Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) - Defnyddwyr masnachol harbwr | 537.36 | **558.85** | Harbour Compound (per annum) - Harbour commercial users |
| Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) - Defnyddwyr masnachol eraill | 620.88 | **645.72** | Harbour Compound (per annum) - Other commercial users. |
| Gordal-defnydd tir tu allan i'r ardal benodedig y M² yr wythnos. | 8.50 | **8.84** | Surcharge - additional storage area outside of allocated plot - per M² per week. |
| Ffi Parcio Ffordd y Compownd | 70.00 | **72.80** | Parking Fee Compound Road |
| | | | |
| Rhent llogi angorfa Abermaw (os ar gael) | 422.90 | **439.82** | Mooring Rental Abermaw (if available) |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | Rheol/Rule 1/18 | **Rheol/Rule 1/18** | Cancellation of mooring application. Discretionary |

| **Ffi Cofrestru Blynyddol** | **2025/26** | **2026/27** | **Annual Registration Fee** |
|---|---|---|---|
| **Cofrestru Blynyddol** | **£75.00** | **£80.00** | **Annual Registration** |
| **Ffi Lansio Blynyddol - Cynnwys Ffi Cofrestru Blynyddol** | | | **Yearly Launching Fee - Inclusive of Annual Registration Fee** |
| **Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth)** | **£190.00** | **£196.50** | **Annual Launching Permits (1 April – 31 March)** |
| **Ffi Lansio Dyddiol** | | | **Daily Launching Fees** |
| **Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinnol** | **£23.00** | **£24.00** | **Daily launch – General Slipways/Beaches** |
| **Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan (yn ogystal â £4 ychwanegol ar gyfer parcio)** | **£27.00** | **£28.15** | **Daily launch – Morfa Bychan Beach (plus an additional £4 required for Parking)** |
| **Ffi Trosglwyddo / Ailddodiad** | | | **Transfer / Replacement Fee** |
| **Ceisiadau drwy'r post yn unig i** Morwrol@gwynedd.llyw.cymru | **£75.00** | **£80.00** | **Postal application only to Morwrol@gwynedd.llyw.cymru** |
| **Cychod llai na 10 HP a Cychod Hwylio** | | | **Vessels under 10 HP and Sail Boats** |
| **Cofrestru Blynyddol – Ceisiadau Mewn Person yn Unig. Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio. Dim ffi lansio yn daladwy.** | **£42.00** | **£45.00** | **Annual Registration – In Person Application Only. At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection. No launching fees charged for small vessel.** |

| BARMOUTH HARBOUR | Financial Performance for the Period 1 April 2025 to 31 March 2026 - November 2025 Review | | |
|---|---|---|---|
| | BUDGET / TARGETS FOR THE PERIOD 1/4/25 TO 31/3/26 | INCOME & EXPENDITURE FORECASTED 1/4/25 TO 31/3/26 | OVER (UNDER) |
| Employees | 79,927 | 84,603 | 4,676 |
| | | | |
| Buildings | 12,410 | 11,009 | (1,401) |
| | | | |
| Transport | 890 | 2,048 | 1,158 |
| | | | |
| Supplies & Services | 12,000 | 16,547 | 4,547 |
| | | | |
| One - Off Expenditure - Financed from Reserves | 0 | 0 | 0 |
| | | | |
| **Total Expenditure** | **105,227** | **114,207** | **8,980** |
| | | | |
| Income | (47,590) | (50,596) | (3,006) |
| Contribution from Reserves Towards One Off Costs | 0 | 0 | 0 |
| | | | |
| **Total Net** | **57,637** | **63,611** | **5,974** |

## iv) Materion Allweddol Eraill

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ar y canlynol:

### Staff

Gyda thristwch rwy'n adrodd bod ein Harbwrfeistr Cynorthwyol, Lois, wedi gadael yr adran i ychwanegu at ei phrofiad morwrol dramor. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei hymdrechion yn y dyfodol. Roedd Lois yn aelod uchel ei pharch o dîm yr harbwr, bob amser yn barod i gynorthwyo a rhannu ei gwybodaeth gyda morwyr. Cyn iddi ymadael, ymwelodd nifer o drigolion lleol â'r swyddfa i ddymuno'n dda iddi, gan ddweud eu bod yn drist ei gweld yn gadael.

Yn dilyn y swydd wag, hysbysebodd y gwasanaeth y swydd ddechrau mis Ionawr ac maent yn falch o gyhoeddi, ar ôl proses gyfweld lwyddiannus, bod Oliver Simmons wedi'i benodi'n Harbwrfeistr Cynorthwyol newydd. Mae'n edrych ymlaen at gwrdd â thrigolion lleol a datblygu perthnasoedd gwaith cryf ar y dŵr ac oddi ar y dŵr.

### Y Bwi Mordwyo

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Bwi Mordwyo ar hyn o bryd yn "Oddi ar ei safle", oherwydd storm ddifrifol dros y gaeaf. Daeth y bwi i'r lan ychydig i'r de o'r bont reilffordd i gerddwyr yn Llanaber, lle mae amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi'u sefydlu drwy ddefnyddio clogfeini mawr. Yn anffodus, cafodd adeiladwaith y bwi (dur, gwydr ffibr, ac ewyn mewnlenwi) ei ddifrodi dros sawl llanw oherwydd ei anhygyrchedd ac effaith y môr a'r clogfeini. Mae'r Gwasanaeth bellach yn wynebu buddsoddiad

sylweddol mewn offer angori newydd. Yn ffodus, mae bwi mordwyo sbâr ar gael yn Harbwr Abermaw, fodd bynnag, mae bwi llai, mwy rheoladwy yn cael ei ystyried i symleiddio'r gwaith cynnal a chadw ac arolygu parhaus i'r Gwasanaeth a'r contractwr. Bydd y bwi mordwyo yn cael ei ddychwelyd i'w le pan fydd amodau'n caniatáu.

**Gerddi'r Draphont**

Mae'r gwaith ar brif wal y môr wedi mynd rhagddo yn dda, bydd y gwaith adeiladu yn dechrau cyn bo hir ar ran uchaf y wal. Yn ogystal, mae cam nesaf y sylfeini i'r wal sydd wedi'i gosod yn ôl ar hyd y palmant wedi dechrau. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2026, er bod ymdrechion ar y gweill gyda Griffiths a Gwynedd i weld a ellir cyflawni hyn yn gynt.

**3. ARGYMHELLION:**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| **Dyddiad:** | 24 Mawrth 2026 |
| **Awdur:** | Yr Harbwrfeistr, Kane Triggs |
| **Gwasanaeth:** | Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned |
| **Teitl:** | Diweddariad ar Faterion Gweithredol |

**1. CEFNDIR**

1.3 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.4 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion gweithredol sy'n ymwneud â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

## 2. ADRODD AR FATERION GWEITHREDOL

2.1 Cyflwynir y crynodeb isod o safbwynt perfformiad y Gwasanaeth.

### a) Materion Mordwyo

Oherwydd gwaith cynnal a chadw parhaus, yn ogystal â thywydd garw ac amodau'r môr, ar hyn o bryd mae pum Hysbysiad i Forwyr mewn grym ynglŷn â dynesu i Harbwr Abermaw.

Cynghorir morwyr yn gryf i gysylltu â Swyddfa'r Harbwr a chyfeirio at yr Hysbysiad Lleol diweddaraf i Forwyr er mwyn cael y wybodaeth fordwyo ddiweddaraf ar gyfer Harbwr Abermaw.

Mae'r Cymhorthion Mordwyo canlynol "Oddi ar eu Safle" neu "Bod y Golau wedi'i ddiffodd" ar hyn o bryd:

Bwi Allanol (Bwi'r Sianel Fordwyo)
Marc llaw Starboard rhif 1
Marc llaw Starboard rhif 3
Marc llaw Port Rhif 4
Marc llaw Starboard rhif 6

Mae'r manylion llawn ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd.

Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa'r holl forwyr bod y Bwi Allanol yn parhau yn safle siartredig:

52°42.796N 004°04.906W

Gofynnir i forwyr ddefnyddio'r safle hwn i sicrhau mordwyo diogel tra bod y Bwi Allanol "Oddi ar ei Safle".

Yn ogystal, atgoffir morwyr i gadw'r radio VHF ar Sianel 12 yn ystod eu harhosiad yn Harbwr Abermaw a chysylltu â Swyddfa'r Harbwr cyn cyrraedd neu ymadael i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fordwyo a'r tywydd.

### b) Mae materion penodol wedi codi

2.2 Mae morwyr yn dal i brofi effaith tywod gaiff ei chwythu gan y gwynt yn y sianel agosaf at wal yr harbwr. Mae hyn yn achosi anawsterau i gychod sy'n gadael ac yn dychwelyd

i'r harbwr ar lanw isel. Cynghorir pob llong i gysylltu â Swyddfa'r Harbwr cyn mynd at wal yr harbwr.

2.3 Mae'r gwaith o adnewyddu pontŵn yr harbwr yn mynd rhagddo'n dda, a bwriedir ei ailosod ym mis Ebrill 2026. Diolchwn i Gyngor y Dref am eu cefnogaeth barhaus i'r prosiect hwn.

2.4 Ar hyn o bryd nid oes diweddariad yn dilyn y cynnig ar gyfer Trelar Bwyd Môr Symudol ar yr harbwr.

2.5 Mae arolygiad diweddar gan ddefnyddio'r Powercat a'r drôn wedi dangos bod y banciau tywod yn yr harbwr wedi symud yn sylweddol eto eleni. Mae trafodaethau rhwng yr Harbwrfeistr, y contractwr angorfeydd a defnyddwyr yr harbwr yn parhau er mwyn penderfynu ar y lleoliad mwyaf diogel a mwyaf addas ar gyfer cychod.

**c) Cynnal a chadw**

2.6 Cludwyd cwch patrôl yr harbwr, GP3, i Borthmadog ar gyfer archwiliad Cwch Gwaith Cod 3 a gwasanaeth llawn i'r injan. Cwblhawyd mân waith cynnal a chadw hefyd, ac mae'r cwch bellach yn ôl yn Abermaw, yn barod ar gyfer y tymor sydd i ddod.

2.7 Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod yr holl Gymhorthion Mordwyo yn barod i'w defnyddio fel y mae'r amodau yn caniatáu. Mae'r gwasanaeth yn buddsoddi mewn offer newydd, gan gynnwys cadwyn, blociau, goleuadau, i gyflawni ei ddyletswydd statudol fel yr Awdurdod Goleudy Lleol a chynnal mordwyo diogel i fewn i'r harbwr.

2.8 Mae gwaith adweithiol wedi cynnwys symud a chladdu carcasau ar hyd y blaendraeth. Mae'r Gwasanaeth yn gofyn i unrhyw adroddiadau am garcasau ar y blaendraeth gynnwys gwybodaeth am eu lleoliad cywir megis What3Words neu'r Cyfeirnod Grid Cenedlaethol.

2.9 Mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn cerbyd 4x4 newydd i gefnogi'r staff Morwrol, gan alluogi swyddogion i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel ac yn effeithiol ar draws ardaloedd yr harbwr a'r traeth.

2.10 Mae staff wedi cwblhau hyfforddiant gyda'r Cerbyd 'All-Terrain'. Trefnwyd i'r Cerbyd 'All-Terrain' gael gwasanaeth ar ôl y Pasg, i sicrhau ei fod yn ddibynadwy ac yn gweithio'n ddiogel.

**d) Digwyddiadau**

Gweler isod amserlen y digwyddiadau yn Abermaw eleni.

| | |
|---|---|
| Gŵyl Abermaw | 8/9 Mai |
| Ras 10Km Abermaw | 13 Mehefin |
| Carnifal Abermaw | 13 Mehefin |
| | |
| Gŵyl Ddŵr | 20 Mehefin |
| Taith Beiciau Dŵr Bae Colwyn | 20 Mehefin |
| Gŵyl Fwyd | 5 Gorffennaf |
| Sinema Glan y Môr | 7/8 Awst |
| Sea2Sky | 5 Medi |
| Hwrli Bwrli | 12 Medi |
| Gŵyl Gerdded Abermaw | |
| Moto X | |
| Noson Tân Gwyllt a Choelcerth | 6/7 Tach |
| Gorymdaith Tractorau | **I'W GADARNHAU** |

3.2 Mae'r Gwasanaeth yn dymuno blwyddyn lwyddiannus i holl drefnwyr digwyddiadau ac yn gobeithio bydd y tywydd yn ffafriol i'r holl ddyddiadau.

**4. ARGYMHELLION:**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn cynnwys yr adroddiad.